**BWRDD PENSIWN 29-02-24**

**Yn bresennol**:

Eifion Jones (Cadeirydd) a Tony Deakin (Cynrychiolwyr Aelodau)

Cyng. Beca Roberts, Sioned Parry a Ned Michael (Cynrychiolwyr Cyflogwr)

**Swyddogion**: Dewi Morgan (Pennaeth Cyllid), Ffion Madog Evans (Pennaeth Cyllid Cynorthwyol - Cyfrifeg a Phensiynau), Delyth Jones Thomas (Rheolwr Buddsoddi), Meirion Jones (Rheolwr Pensiynau) a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth)

**ERAILL A WAHODDWYD**

Cyng. Stephen Churchman (Cadeirydd Pwyllgor Pensiynau) - arsylwi

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Osian Richards (Cynrychiolydd Aelodau)

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Dim i'w nodi

**3. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi

**4. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod blaenorol y pwyllgor hwn a gynhaliwyd 18-12-23 fel rhai cywir.

**5. COFNODION PWYLLGOR PENSIYNAU**

Cyflwynwyd er gwybodaeth gofnodion Pwyllgor Pensiynau a gynhaliwyd 22-01-2024

Bu i Anthony Deakin fynychu'r cyfarfod ar ran y Bwrdd Pensiwn.
Gofynnodd y cwestiynau canlynol.

- Caffael System Weinyddol - o weld Cronfeydd Pensiwn eraill yn defnyddio'r un system, a fydd opsiwn i'r dyfodol i ystyried caffael system ar y cyd?
- Rheolaeth Trysorlys - Benthyciadau Awdurdodau Lleol - a oes risg i hyn o ystyried bod Awdurdodau Lleol ar draws y wlad yn mynegi diffygion ariannol a photensial o gyhoeddi hysbysiad adran 114?
- Yng nghyd-destun Partneriaeth Pensiwn Cymru (PPC), gofynnwyd o ran diddordeb, os oedd strategaeth materion ariannol yn unig wedi cael ei hystyried o gymharu â strategaeth sydd a'r nod o geisio sicrhau balans rhwng egwyddorion megis, dychweliadau da, materion hinsawdd, gwleidyddiaeth ayyb?

Mewn ymateb i'r sylwadau uchod:

- Caffael System Weinyddol - nododd y Rheolwr Pensiynau mai'r rhwystr fwyaf sy'n atal cytundeb ar y cyd yw bod cytundebau pawb yn dod i ben ar ddyddiad gwahanol - anodd cael yr un dyddiad ar gyfer ail dendro
  Mewn ymateb i gwestiwn ategol, a oes sicrwydd gwerth am arian a bwriad cynnal proses gaffael llawn, nodwyd bod y cwmni presennol yn derbyn cytundeb 5 mlynedd ac y byddai tendr llawn yn cael ei roi allan yn 2029.
- Rheolaeth Trysorlys Benthyciadau Awdurdodau Lleol - eglurodd y Pennaeth Cyllid, yn unol â chyngor Arlingclose, bod cyfleodd da i Awdurdodau Lleol roi benthyg arian i Awdurdodau eraill oherwydd bod y gyfradd llog tymor byr yn uwch na chyfraddau llog y banc a hyd yn oed os yw'r awdurdod wedi cyhoeddi hysbysiad adran 114, bod rhaid i'r arian, yn unol â gofyn statudol, gael ei dalu yn ôl. Nododd hefyd bod Arlingclose yn monitro'r sefyllfa yn rheolaidd ac yn anfon rhybuddion ymlaen llaw i'r Cyngor sy'n argymell, fel y buasent yn gwneud gyda banciau, pa Awdurdodau Lleol i'w hosgoi.
- PPC - Er derbyn sylw bod modd llunio strategaeth fyddai yn sicrhau dychweliadau gwell, nododd Cadeirydd y Pwyllgor Pensiynau bod rhaid sicrhau balans ac osgoi peryglu swyddogaeth / perfformiad y gronfa, sydd ar hyn o bryd ymysg y 10% uchaf yn y DU. Ategodd nad oedd angen cymryd risgiau, ond gwneud penderfyniadau buddsoddi doeth yn seiliedig ar wybodaeth gywir.

## 6. CYLLIDEB 2024-25 PENSIYNAU A RHEOLAETH TRYSORLYS

Cyflwynodd y Rheolwr Buddsoddi, er gwybodaeth, gyllideb ar gyfer yr Uned Gweinyddu Pensiynau a'r Uned Buddsoddi ar gyfer y flwyddyn ariannol 2024–2025. Nodwyd bod y gyllideb wedi ei chymeradwyo gan y Pwyllgor Pensiynau 22-01-2024.

Cyfeiriwyd at gyllideb yr Uned Gweinyddu, gan adrodd bod 24 aelod o staff yn gyflogedig o fewn yr Uned ynghyd a chostau systemau, argraffu, ac ad-daliadau canolog. Nodwyd bod y costau yn gyson ar wahân i ffigwr chwyddiant, gydag addasiad o £28,600 ar gyfer cynnydd mewn cyflenwadau a gwasanaethau - hyn yn ganlyniad i adnewyddu cytundeb systemau yn ystod y flwyddyn gyda chynnydd yng nghost y cytundeb (sydd wedi ei gymeradwyo gan y Pwyllgor Pensiynau 22-01-24).

Cyfeiriwyd ar yr Uned Buddsoddi sydd a thri aelod a chostau yn cael eu rhannu rhwng y Gronfa a Chyngor Gwynedd gan fod yr Uned hefyd yn gyfrifol am Reolaeth Trysorlys. Ategwyd bod costau ymgynghorwyr a chostau rheolwyr buddsoddi yn rhan o'i chyfrifoldeb ond bod y rhain yn amrywio yn ddibynnol ar berfformiad y buddsoddiadau a'r gwaith sydd angen ei gyflawni gan yr ymgynghorwyr. Ystyriwyd na fyddai gosod cyllideb fanwl ar gyfer ffioedd rheolwyr buddsoddi ac ymgynghorwyr o fudd gan fod y gwariant yn amrywio, ond bod asiantaethau megis Pensions & Investment Research Consultants (PIRC) yn edrych ar werth mewn arian ar draws y Cronfeydd. Yn ogystal, ategwyd, wrth fynd i dendro ar gyfer contractau ymgynghorwyr a actiwari yn y dyfodol agos, bydd cyllideb ar gyfer y ffioedd yn cael ei hystyried.

Diolchwyd am yr adroddiad

**Penderfynwyd derbyn yr adroddiad er gwybodaeth, a nodi cyllideb yr Uned Gweinyddu Pensiynau a'r Uned Buddsoddi ar gyfer y flwyddyn ariannol 2024/25**

## 7. AMCANION YMGYNGHORWYR 2023

Cyflwynwyd adroddiad gan y Rheolwr Buddsoddi yn adrodd ar y cynnydd yn erbyn yr amcanion cyfredol, ynghyd a chais i'r Bwrdd nodi'r cynnydd a'r amcanion ar gyfer 2024. Adroddwyd, yn dilyn adolygiad o'r marchnadoedd ymgynghori buddsoddi a rheoli ymddiriedol, bu i'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd nodi'r angen i

Ymddiriedolwyr Cronfeydd Pensiwn osod amcanion i'w ymgynghorwyr buddsoddi gan nodi yn glir yr hyn ddisgwylir ganddynt.

Adroddwyd ers nifer o flynyddoedd bellach, bod y Gronfa wedi gosod amcanion i'r ymgynghorwyr presennol, Hymans Robertson a hynny i wneud yn siwr bod y gwaith maent yn ei gyflawni yn cyd fynd gydag amcanion strategol y gronfa, ac yn ogystal yn rhan o lywodraethu da. Er hynny, yn ystod y 6 mis nesaf bydd y Cyngor yn cyhoeddi tendr am y gwaith ymgynghorol gan sefydlu cytundeb penodol (fydd hefyd yn cynnwys cyfnod trosiannol). Ategwyd bod hwn yn gam priodol i'w gymryd a byddai'n gyfle i edrych beth sydd gan y farchnad i'w gynnig ac yn ychwanegu elfen gystadleuol.

Adroddwyd bod y flwyddyn ddiwethaf wedi bod yn un prysur gydag ymgynghorwyr yn darparu cyngor ar y strategaeth buddsoddi wrth ail asesu'r lefel cyllido yn ddiweddar, yn cynorthwyo gyda phenderfynu ar y lefel priodol o ymrwymiadau i'r marchnadoedd preifat a sicrhau bod llif arian digonol gan y Gronfa i dalu'r pensiynwyr yn fisol. Ategwyd bod Hymans hefyd wedi cydweithio gyda'r swyddogion i adolygu polisïau mewnol a sicrhau cydymffurfiaeth gydag unrhyw reoliadau pensiwn perthnasol.

Er nad yw Hymans yn darparu hyfforddiant drwy gytundeb uniongyrchol gyda Chronfa Gwynedd, bod hyfforddiant amserol ar gael drwy Bartneriaeth Pensiwn Cymru, gyda chyfraniadau sylweddol gan Hymans. Er derbyn hefyd bod y ffioedd yn uchel (sydd yn wir hefyd am rai cwmnïau eraill yn y farchnad), bod Hymans wedi cydweithio yn dda drwy'r flwyddyn gyda'r holl bartneriaid e.e. yr actiwari a Phartneriaeth Pensiwn Cymru.

Wrth gyfeirio at amcanion ar gyfer y flwyddyn nesaf, amlygwyd bod yr amcanion presennol wedi eu cyfuno i 10 amcan allweddol ar gyfer y dyfodol a bod yr ymgynghorwyr buddsoddi yn ymwybodol o gefnogaeth fydd y Gronfa ei angen i weithredu prosiectau ychwanegol yn 2024.

Diolchwyd am yr adroddiad ac am ddiweddaru'r amcanion

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â'r cwmnïau posib sydd ar gael i gyflawni'r gwaith, nodwyd bod fframwaith i'r broses tendro a chwmnïau cymwys wedi arwyddo i'r fframwaith honno (sy'n cynnwys 4 actiwari ac 8 ymgynghorydd). Er derbyn bod rhai cwmnïau yn fwy adnabyddus na'i gilydd, bod y tendr yn edrych ar ddwy swyddogaeth ac nid yn chwilio am gynnig pecyn cyfan i un cwmni.

**PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a derbyn y cynnydd a wnaed ar amcanion yr ymgynghorwyr yn ystod 2023**

## 8. HUNANWASANAETH AELODAU - FY MHENSIWN AR-LEIN

Cyflwynwyd diweddariad gan y Rheolwr Pensiynau ar y gwaith sydd wedi ei wneud i uwchraddio'r system Fy Mhensiwn ar Lein. Adroddwyd bod y system yn ei ffurf bresennol yn hen ffasiwn gyda nifer o aelodau yn cael problemau mewngofnodi i'r safle sy'n golygu nid oes defnydd llawn yn cael ei wneud ohono.

Datblygwyd y fersiwn newydd gyda chefnogaeth Heywood Pension Technologies (darparwr meddalwedd y Gronfa). Nodwyd bod gan y safle wedd hollol newydd, a gyda'r dechnoleg newydd a ddefnyddir, golygir bod ymarferoldeb llawer gwell ar draws y wefan gyda diweddariadau pellach ar y gweill i ymgysylltu'n well gyda'r aelodau.

Elfen hanfodol i Gronfa Bensiwn Gwynedd yw sicrhau bod y safle newydd ar gael yn ddwyieithog ac felly Gwynedd wedi arwain ar y gwaith o baratoi testun Cymraeg ar

gyfer y safle a sicrhau bod y Gymraeg yn safonol a chywir. Y gobaith yw bydd gweddill cronfeydd Cymru yn manteisio ar y ddarpariaeth yma.

Diolchwyd am y diweddariad, am y gwaith da a braf gweld Gwynedd yn arwain y gad ar y ddarpariaeth Gymraeg.

**Penderfynwyd derbyn a nodi'r wybodaeth**

## 9. CYNLLUN HYFFORDDIANT CRONFA BENSIWN GWYNEDD

Cyflwynwyd adroddiad gan y Rheolwr Buddsoddi yn rhoi crynodeb o'r hyfforddiant a gyflwynwyd i'r Aelodau yn ystod 2023/24 ynghyd a chynllun hyfforddiant bras ar gyfer 2024/25,

Ystyriwyd bod Cynllun Hyfforddiant 2023/24 wedi bod yn llwyddiannus a diolchwyd i'r Aelodau am fynychu'r amryw o gynadleddau a sesiynau hyfforddi Partneriaeth Pensiwn Cymru (PPC) sydd yn sesiynau defnyddiol ac amserol. Ategwyd bod yr Aelodau hynny oedd angen cwblhau hyfforddiant Fundamentals bellach wedi gwneud hynny ac mai'r unig hyfforddiant na chafodd ei gwblhau oedd bod y Rheolwr Buddsoddi heb fynychu cwrs cau cyfrifon a hynny oherwydd nad oedd newid yn y canllawiau.

Ategwyd bod Cynllun Hyfforddiant 2024/25 yn dilyn yr un drefn a chynllun 2023/24 gyda sesiynau PPC, cyrsiau a chynadleddau eisoes wedi eu hadnabod.

Diolchwyd am yr adroddiad. Gwnaed sylw bod y cynllun yn un da a bod y webinarau a'r sesiynau hyfforddiant yn arbennig, er bod y cyfnod rhybudd yn fyr. Mewn ymateb, nododd y Rheolwr Buddsoddi bod recordiad o'r sesiynau hyfforddi ar gael os bydd rhywun yn methu mynychu.

**PENDERFYNWYD derbyn a nodi'r wybodaeth**

## 10. RHAGLEN WAITH BWRDD PENSIWN 2024-25

Cyflwynwyd rhaglen waith diwygiedig ar gyfer 2024/25. Nodwyd bod y rhaglen yn cynnwys materion a nodwyd yn dilyn ystyriaeth gan y Bwrdd mewn cyfarfodydd blaenorol a materion yn codi. Amlygwyd y gellid ychwanegu materion sy'n codi yn ystod y flwyddyn i'r rhaglen yn unol ar angen ynghyd ag unrhyw faterion / syniadau fydd yn codi gan aelodau wedi sesiynau hyfforddi a / neu ddigwyddiadau perthnasol.

Nododd Cadeirydd y Pwyllgor Pensiynau ei fod wedi cyflwyno adborth i Aelodau'r Pwyllgor o gynhadledd LAPFF a fynychodd yn Bournemouth fis Rhagfyr 2023. Amlygodd bod gwerth mewn rhannu gwybodaeth o'r cynadleddau / sesiynau hyfforddi a'i fwriad oedd cynnig eitem reolaidd ar raglen y pwyllgor. Awgrymodd i Aelodau'r Bwrdd wneud yr un peth.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a nodi'r wybodaeth**

Dechreuodd y cyfarfod am 1:00pm a daeth i ben am 1:45pm